**Mark Drakeford AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref:
Ein cyf/Our ref: MA-L-FM/0868/18

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

SeneddCLA@assembly.wales

3 Ionawr 2019

Annwyl Mick,

Ysgrifennaf atoch fel ymateb i'ch llythyr dyddiedig 11 Rhagfyr, at fy rhagflaenydd fel Prif Weinidog, ynglŷn â'r datganiadau ysgrifenedig ar gyfer Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygio Rheoliadau Domestig) (Ymadael â'r UE) 2018 a Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygio Amrywiol a Dirymu Deddfwriaeth Uniongyrchol yr UE a Ddargedwir) (Ymadael â'r UE) 2018.

Gallaf gadarnhau mai amryfusedd clerigol oedd yn gyfrifol am y gwallau yn y datganiadau ysgrifenedig. Mae'r datganiadau ysgrifenedig wedi cael eu cywiro a'u hailgyhoeddi. Yn sgil eich llythyr chithau, mae fy swyddogion wedi adolygu datganiadau ysgrifenedig eraill sydd wedi cael eu gosod mewn perthynas ag Offerynnau Statudol sy'n gysylltiedig ag Ymadawiad y Deyrnas Unedig (DU) o'r Undeb Ewropeaidd (UE). Daethpwyd o hyd i wall tebyg yn y datganiad ysgrifenedig ar gyfer Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru a Lloegr) (Ymadael â'r UE) 2018. Mae'r datganiad ysgrifenedig hwn hefyd wedi cael ei gywiro a'i ailgyhoeddi. Er hwylustod, ichi gael cyfeirio atynt, mae'r datganiadau ysgrifenedig diwygiedig ynghlwm wrth y llythyr hwn. Er mwyn osgoi gwneud unrhyw wallau tebyg eto, mae fy swyddogion yn awr wedi cyflwyno dull newydd ar gyfer gwirio datganiadau ysgrifenedig cyn iddynt gael eu cyhoeddi.

Rwy'n gwerthfawrogi ei bod yn fwy heriol asesu'r effaith a gaiff Offerynnau Statudol sy'n gysylltiedig ag Ymadawiad y DU o'r UE yma yng Nghymru pan fo gwallau yn ymddangos mewn datganiadau ysgrifenedig ac rydym yn ymdrechu i osgoi unrhyw achosion eraill o'r fath.

Diolch ichi am eich diwydrwydd ac am ystyried yn fanwl Offerynnau Statudol sy'n gysylltiedig ag Ymadawiad y DU o'r UE.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd.

Yn gywir



**Mark Drakeford**